

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

“Tegwch a Chydraddoldeb i Bawb”

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wefan y bwrdd iechyd yn www.biapowys.cymru.nhs.uk/polisi-r-gymraeg-a-r-polisi-cydraddoldeb

Os ydych chi eisiau copi caled o'r ddogfen hon neu gopi mewn fformat gwahanol, er enghraifft print bras, fersiwn sain, fformat word ar gyfer sgriniau darllen, cysylltwch ag:

E-bost: Powys.geninfo@wales.nhs.uk

Ffôn: 01874 711661

Rhagair

Ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP), rydyn ni wedi gosod Cydraddoldeb wrth wraidd ein cynllunio a chyflenwi gwasanaeth.

Mae Tegwch a Chydraddoldeb yn un o chwe gwerth craidd y sefydliad y mae ein staff wedi'u datblygu. Mae sicrhau bod 'Gwasanaethau o fewn Cyrraedd Teg' yn un o'r egwyddorion craidd sydd wrth wraidd ein strategaeth 10 mlynedd ar gyfer Iechyd a Gofal ym Mhowys.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn berthnasol ar draws holl adrannau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac i'r holl wasanaethau rydyn ni'n eu cynllunio a'u cyflenwi. Rydyn ni hefyd yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion a materion cydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau ac wedi wreiddio Cydraddoldeb yn ein dull o fynd ati i asesu effaith.

Mae gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan o waith prif ffrwd y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu, yn y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu a chyda'r bobl rydyn ni'n eu cyflogi. Ein nod fydd cyflawni hyn trwy roi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn ar waith a pharhau i osod Cydraddoldeb wrth wraidd yr hyn rydyn ni'n ei wneud.

Carol Shillabeer
Prif Weithredwr

Yr Athro Vivienne Harpwood
Cadeirydd

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Paratoi ar gyfer ein CCS 2020-2024	6
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys: Pwy ydyn ni, Lle rydyn ni'n byw a Beth y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud	7
Datblygu Amcanion ein CCS	10
Gosod Amcanion ein CCS	12
Rhoi Amcanion ein CCS ar waith	13
Monitro, Adolygu a Chyhoeddi Gwybodaeth	14

Atodiadau

- Atodiad 1 – Cynllun Gweithredu – Amcanion y CTCI
- Atodiad 2 – Cynllun Gweithredu – Camau Gweithredu Amcanion y CCS
- Atodiad 3 – Canlyniadau Arolwg y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer Ardal Powys
- Atodiad 4 – Gwybodaeth Bellach

Cyflwyniad

Diffiniad o Gydraddoldeb

Gall y term 'cydraddoldeb' olygu gwahanol bethau i wahanol bobl felly, er eglurder, pan fydd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r term bydd yn gweithio yn ôl y diffiniad a ddarparwyd gan yr Adolygiad o Gydraddoldebau, sef bod cymdeithas gyfartal yn diogelu ac yn hybu cydraddoldeb, gwir ryddid a chyfle i fyw yn y modd y mae pobl yn ei werthfawrogi ac y bydden nhw'n ei ddewis, fel bod pawb yn gallu ffynnu. Mae'n dweud bod cymdeithas gyfartal yn cydnabod gwahanol anghenion, sefyllfaoedd a nodau pobl, ac yn symud y rhwystrau sy'n cyfyngu ar yr hyn y mae pobl yn gallu ei wneud a bod.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn manylu ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC) sydd, i grynhoi, yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i roi sylw dyledus wrth gyflawni eu swyddogaethau i'r angen i:

- Ddileu camwahaniaethu, aflonyddu ac erlid;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rheini nad ydyn nhw'n ei rhannu; a
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rheini nad ydyn nhw'n ei rhannu.

Datblygwyd y DCSC i gysoni'r dyletswyddau cydraddoldeb blaenorol o ran hil, anabledd a rhyw, ac i'w hystreyn ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Y 9 nodwedd warchodedig ydy:

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gredo
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol
- priodas a phartneriaeth sifil (o ran cael eu trin yn wahanol yn y gwaith).

Yr Iaith Gymraeg

Er nad yw'r iaith yn nodwedd warchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac er bod diogelu'r iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo dan ddeddfwriaeth ar wahân (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau cysylltiedig), mae'n gydnabyddedig ers tro bod cydraddoldeb a pholisïau'r Gymraeg yn cyfannu ac yn darparu sail i'w gilydd ac yn cael eu cefnogi ymhellach trwy'r nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Ein bwriad yw cynnal ac atgyfnerthu'r egwyddor trwy ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol newydd a sicrhau eu bod nhw'n ddefnyddiol i hybu a diogelu'r iaith Gymraeg.

Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol

Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n anghyfreithlon **camwahaniaethu**, **aflonyddu** neu **erlid** rhywun oherwydd eu bod, neu ystyrir eu bod, â "nodwedd warchodedig" neu wedi'u cysylltu â rhywun â nodwedd warchodedig.

Mae'r Ddeddf yn esbonio bod rhoi'r sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn galw am:

- Ddileu neu leihau anfanteision y mae pobl yn eu dioddef oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau nodweddion gwarchodedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill.
- Annog pobl o grwpiau gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae nifer y bobl o'u plith sy'n cymryd rhan yn anghymesur o isel.

Yn ôl y disgrifiad yn y Ddeddf Cydraddoldeb, ystyr 'meithrin perthynas dda' ydy mynd i'r afael â rhagfarn a hybu dealltwriaeth rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydyn nhw'n ei rhannu. Mae'n bosibl y bydd cyflawni'r ddyletswydd yn golygu trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill, cyn belled nad yw hyn yn mynd yn groes i ofynion eraill y Ddeddf.

Dan y Rheoliadau hyn, mae'n ofynnol bod pob corff a restrir yn paratoi a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) bob pedair blynedd. Wrth ddatblygu eu hamcanion cydraddoldeb, mae'n rhaid i sefydliadau gynnwys pobl sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig ac y mae ffordd y sefydliad o gyflawni ei swyddogaethau o bwys iddyn nhw.

Paratotoi ar gyfer ein CCS 2020-2024

Ym mis Hydref 2018, cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol adolygiad cynhwysfawr o sut y mae Cymru'n perfformio ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol yn ei adroddiad *A yw Cymru'n Decach?* Mae'r adolygiad hwn yn darparu tystiolaeth a data gwerthfawr a fydd yn cefnogi ymdrechion cyrff cyhoeddus i leihau anghydraddoldeb yng Nghymru.

Edrychodd y Comisiwn ar chwe agwedd ar fywyd:

- addysg;
- iechyd;
- safonau byw;
- cyfiawnder a diogelwch;
- gwaith; a
- chyfranogiad

Cymharwyd y canlyniadau ar gyfer grwpiau â nodweddion gwarchodedig mewn meysydd fel bwch cyflog, cyrhaeddiad addysgol a phrofiadau o droseddau casineb.

Er mwyn ymdrechu i sicrhau ffordd gyson o fynd ati i ddatblygu CCS, mae cyrff y sector cyhoeddus yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymuno â'i gilydd i sefydlu Grŵp Cydweithredol Rhanbarthol a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau a ganlyn:

- BIA Powys
- BIP Hywel Dda
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Gan ddefnyddio'r themâu allweddol yn yr Adroddiad *A yw Cymru'n Decach?* fel canllaw, ymgwymerodd y Grŵp Cydweithredol Rhanbarthol ag ymarfer ymgysylltu helaeth ym mis Mai a mis Mehefin 2019. Ceisiodd yr arolwg, a'r ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori, farn y cyhoedd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, a hefyd barn y rheini â nodwedd warchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae BIAP wedi defnyddio'r dadansoddiad data y bu'r Grŵp Cydweithredol Rhanbarthol yn eu casglu i baratoi set o Amcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2020-2024 â'r nod o fynd i'r afael â'r heriau y manylir arnyn nhw yn *A yw Cymru'n Decach? 2018*.

Mae CCS BIAP yn manylu ar sut y byddwn ni'n sicrhau bod ein gweithrediadau'n deg i bawb. Mae cael eich trin yn deg a chyda pharch yn berthnasol i ni i gyd a'n teuluoedd a'n ffrindiau.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys: Pwy ydyn ni, Lle ydyn ni'n byw a Beth y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud

Ein Poblogaeth Leol

Powys yw un o'r siroedd mwyaf gwledig yn y DU. Er bod y sir yn oddeutu 25% o dirfas Cymru, dim ond 5% o'r boblogaeth sydd yno. Mae'r boblogaeth ym Mhowys yn hŷn o'i chymharu â gweddill Cymru ac mae cyfran y bobl hŷn yn tyfu. Mae'r boblogaeth oedolion o oedran gweithio yn llai o'i chymharu â gweddill Cymru a rhagwelir y bydd nifer y bobl ifanc ac oedolion o oedran gweithio'n gostwng, tra bydd nifer y bobl hŷn yn cynyddu. Mae yna rwydwaith cryf o drefi a phentrefi bychain â chryn dipyn o ymrwymiad cymdeithasol, a sector gwirfoddol cryf yn y sir.

Dyma rai ystadegau ynglŷn â phreswylwyr Powys o ran Cydraddoldeb a'r rheini â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni werthfawrogi amrywiaeth ein poblogaeth a'r angen i drin ein gilydd ag urddas a pharch. Mae'n bwysig ein bod ni'n sicrhau bod grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio neu sydd brin byth yn cael dweud eu dweud yn cael eu cynnwys ac yn gallu cael mynediad at wasanaethau.

Mae gan Bowys boblogaeth o 132,976 o bobl.

Mae 22,893 (17%) yn 16 oed neu iau.
Mae 79,837 (60%) o oedran gweithio.
Mae 30,246 (23%) yn 65 oed neu hŷn.

Yn 2015, mudodd 5,900 o bobl i mewn i Bowys a mudodd 5,500 allan o Bowys, gyda rhyw 400 o'r ddau lif hyn yn fudwyr rhyngwladol. Mae'r rheini sy'n mudo allan o Bowys fel rheol rhwng 15 a 29 oed, ond mae'r llifoedd mwyaf o bobl sy'n symud i mewn i Bowys hefyd rhwng 15 a 29 oed. Mudodd rhyw 2,000 o bobl yn y grwpiau oedran hyn allan o Bowys, a symudodd 1,500 i mewn.

Daw 130,827 (98%) o bobl o gefndir gwyn a daw 2,149 (2%) o gefndir heb fod yn wyn.

Yn 2016, mae Powys wedi gweld cynnydd o 10% yn nifer y digwyddiadau trais domestig y rhoddir gwybod amdany'n nhw, o'i gymharu â 2015. Mae'n ymddangos bod trais domestig yn digwydd yn amlach yng ngogledd Powys, lle y mae'n fwy tebygol o effeithio ar grwpiau BME ac LGBT. Mae yna lawer o droseddau nad oes neb yn rhoi gwybod amdany'n nhw, ac mae disgwyl i nifer y digwyddiadau gynyddu dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r cynnydd hwn yn parhau tuedd sydd eisoes yn bodoli, gyda chynnydd cyffredinol o 75% ers 2010.

Mae 8% o boblogaeth Powys yn dweud eu bod nhw'n cael eu trin ar gyfer iselder neu orbryder, ac mae'n un o'r tri phrif beth sy'n achosi anabledd

Dywedodd 19% o ddinasyddion eu bod nhw'n gallu siarad Cymraeg yn 2011. Mae'r prif bocedi o siaradwyr Cymraeg i'w cael yng Ngogledd-Orllewin a De-Orllewin y sir. Mae hybu'r Gymraeg wedi parhau, gyda chynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg ifanc ers 1991.

Yr amcangyfrif yw bod yna 4,256 o bobl ym Mhowys sydd dros 65 oed ac sydd â dementia.

Ym mhob 100 o bobl sy'n byw ym Mhowys, byddai 5-7 yn Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol.

Anhwylerau ar y sbectrwm awtistig yw'r achosion mwyaf cyffredin o anabledd ymhlith plant ym Mhowys. Yn 2016, cyfeiriwyd 155 o achosion agored at y tîm (gostyngiad o 13% ers 2012). O'n llwyth achosion, mae 52% o blant ag anableddau'n byw yng ngogledd Powys.

Mae yna 28,437 (21%) o bobl ag anabledd neu salwch cyfyngus hirdymor.

Ym mhob 100 o bobl sy'n byw ym Mhowys, mae 12 yn darparu gofal di-dâl.

Mae 82,120 (62%) o bobl yn Gristnogion, mae gan 2053 (1%) o bobl grefydd arall ac mae 37,050 (28%) heb unrhyw grefydd; mae'n well gan 11,753 (9%) beidio â datgan eu crefydd.

Mae 41.6% o 59,215 o aelwydydd yn ennill llai nag £20,000 y flwyddyn

Mae 3.8% o 59,215 o aelwydydd yn ennill mwy na £80,000 y flwyddyn.

Mae 56,486 (42%) o'r bobl dros 18 oed wedi priodi neu maen nhw mewn partneriaeth sifil

Mae 2,310 (2%) wedi gwahanu ond maen nhw dal yn briod neu mewn partneriaeth sifil yn gyfreithiol

Mae 10,562 (8%) o bobl wedi ysgaru

Mae 9,646 (7%) o bobl yn weddw

Mae 31,079 (23%) yn sengl

Mae 3,370 (3%) yn byw ar aelwydydd unig riant

Ein Gweithlu

Ym mis Hydref 2019, mae BIAP yn cyflogi 2,248 aelod o staff sy'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau gofal iechyd ym Mhowys. Mae Cydraddoldeb yn gydran annatod o'r chwe egwyddor craidd sydd wrth wraidd ein Strategaeth Iechyd a Gofal 10 mlynedd ar gyfer Powys.

- Gwneud Beth Sy'n Bwysig
- Gwneud Beth Sy'n Gweithio
- Canolbwyntio ar yr Angen Mwyaf
- Sicrhau Bod Gwasanaethau o Fewn Cyrraedd Teg
- Bod yn Ddarbodus
- Gweithio Gyda Phobl a Chymunedau

Bu ein staff yn nodi ac yn datblygu ein gwerthoedd a'r ymddygiadau cysylltiedig ac maen nhw'n ganolog i bopeth rydyn ni'n ei wneud ym Mhowys.

Ein Gwerthoedd

- Y pethau rydyn ni o'r farn sy'n bwysig i'n ffordd o fyw a gweithio ydy ein gwerthoedd. Ein "hegwyddorion arweiniol" ydyn nhw;
- Mae gan bob un o'r gwerthoedd statws cyfartal;
- Mae gwerthoedd fel rheol yn anweladwy (fel rhewfryn, y rhew o dan y dŵr ydyn nhw);
- Mae gwerthoedd ar eu pennau eu hunain yn gallu bod yn ddiystyr, os nad ydyn nhw wedi'u cyfateb i'n hymddygiadau.

Ein Hymddygiadau

- Y pethau rydyn ni'n eu gwneud a'u dweud, a'n ffordd o ymddwyn, ydy ymddygiadau;
- Mae ymddygiadau'n weladwy (fel rhewfryn, y rhew uwchben y dŵr ydyn nhw);
- Mae ein hymddygiadau'n effeithio ar sut rydyn ni'n teimlo ynglŷn â'n hunain a sut rydyn ni'n gwneud i eraill deimlo;
- Pan mae'r pethau rydych chi'n eu gwneud a'ch ffordd o ymddwyn wedi'u cyfateb i'n gwerthoedd, mae bywyd fel rheol yn dda – rydyn ni'n fodlon ein byd. Pan nad yw ymddygiadau'n cyfateb i werthoedd, dyna pan fo pethau'n teimlo o chwith, a gall hyn achosi anfodlonrwydd ac anhapusrwydd.

Datblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb

Darparodd y canlynol sail i amcanion CCS BIAP:

1. Arolwg Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Grŵp Cydweithredol Rhanbarthol

Ymunodd Cyrff y Sector Cyhoeddus yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru â'i gilydd i ofyn i'r cyhoedd am eu barn ar gydraddoldeb. Roedd hyn yn cynnwys arolwg a digwyddiadau ymgysylltu. Gan ddefnyddio Adroddiad *A yw Cymru'n Decach?* fel canllaw, casglodd yr arolwg farn pobl ynglŷn a sut brofiadau yr oedd pobl o bob grŵp â nodweddion gwarchodedig yn eu cael yn yr agweddau a ganlyn ar fywyd:

- Addysg
- Gwaith
- Gofal a Chefnogaeth o fewn cyrraedd
- Tai
- Trafnidiaeth o fewn cyrraedd
- Yr arfordir a chefn gwlad o fewn cyrraedd ar gyfer hamdden
- Iechyd
- Trosedd
- Cyfiawnder o fewn cyrraedd
- Penderfyniadau sy'n dylanwadu
- Gwybodaeth a gwasanaethau digidol o fewn cyrraedd
- Dod at ein gilydd mewn cymuned

2. '*A yw Cymru'n Decach 2018?*' y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae'r adroddiad yn ceisio ateb y cwestiwn, '*A yw Cymru'n Decach?*' Mae'r dystiolaeth yn cyfeirio at bum darganfyddiad arwyddocaol:

- Bod camau wedi'u cymryd i'r cyfeiriad iawn
- Bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn bodoli
- Bod pobl anabl yn syrthio fwy fyth ar ei hôl hi
- Bod heriau'n bodoli i ddiogelwch a dilyniant gyrfa merched
- Bod anghydraddoldeb hiliol yn parhau

3. Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Roedd y cynllun yn cynnwys yr amcanion a ganlyn:

- gwybodaeth fwy hygyrch am wasanaethau
- ymgysylltu
- agwedd
- mynediad at wasanaethau
- gweithio i ni
- casglu a dadansoddi dystiolaeth
- cymunedau iach a chynaliadwy
- cyfathrebiadau
- monitro cyflog a chyflogaeth ar sail rhyw

4. Amcanion CCS drafft Llywodraeth Cymru 2020-2024

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dileu anghydraddoldeb sy'n deillio o dlodi;
- Mesurau amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol cryf a blaengar i bawb yng Nghymru;
- Bydd anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn flaenllaw yn y broses o gynllunio a darparu pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru;
- Bydd Cymru yn arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywiol;
- Dileu difriô, aflonyddwch, troseddau casineb a bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth;
- Cymru o gymunedau cydlynus sy'n gydnerth, yn deg ac yn gyfartal;
- Gall pawb yng Nghymru gyfranogi mewn bywyd gwleidyddol, cyhoeddus a bywyd bob dydd;
- Bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn arwain y ffordd fel sefydliadau a chyflogwyr cynhwysol ac amrywiol sy'n dangos esiampl.

5. Y broses cynllunio integredig ym Mhowys

Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaeth, cymunedau, staff a phartneriaid gan gynnwys Cyngor Sir Powys, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys, Bwrdd Gwasanaethau Lleol Powys a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys i ddatblygu Cynllun Ardal, Cynllun Llesiant, Strategaeth Iechyd a Gofal a Chynllun Tymor Canolig Integredig. Yr amcanion llesiant yn ein cyd-strategaeth iechyd a gofal yw:

- Canolbwyntio ar Llesiant
- Help a Chefnogaeth Gynnar
- Mynd i'r Afael â'r Pedwar Mawr
- Gofal Cydgysylltiedig
- Dyfodol y Gweithlu
- Amgylcheddau Arloesol
- Digidol yn Gyntaf
- Trawsnewid mewn Partneriaeth

6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae gan BIAP ddyletswydd i sicrhau llesiant ein poblogaeth leol ac i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant a ganlyn fel y manylir arnyn nhw yn y Ddeddf:

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Gosod Amcanion ein CCS

Bydd nodau cydraddoldeb tymor hir BIAP yn hanfodol wrth helpu BIAP i gyrraedd y nodau llesiant sydd yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig, ein Cyd-Strategaeth Iechyd a Gofal a'r rheini sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan eu bod i gyd wedi'u cysylltu'n agos iawn â'i gilydd. Mae'r Asesiad o Anghenion Llesiant a wnaed yn 2017 wedi caniatáu i BIAP nodi gwybodaeth bwysig ynglŷn â'n poblogaeth leol sydd wedi'i defnyddio i flaenoriaethu ein Hamcanion Cydraddoldeb.

Bu'r Grŵp Cydweithredol Rhanbarthol yn trafod dulliau amrywiol o fynd ati i ddatblygu CCS newydd. Dewisodd BIAP fabwysiadu dull tebyg i ddrafft CCS Llywodraeth Cymru 2020-2024 wrth osod ein hamcanion cydraddoldeb ein hunain. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb ledled Cymru a bydd yn helpu i greu dull cydweithredol o fynd ati i gyflawni 'tegwch a chydraddoldeb i bawb' ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Mae ein hamcanion cydraddoldeb hefyd yn adlewyrchu'r nodau ac amcanion y manylir arnyn nhw yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) 2020-23 a'n Cynllun Blyneddol 2020-21, fel bod materion cydraddoldeb yn cael eu gwreiddio ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.

Yn dilyn y dadansoddiad o ymatebion i'r arolwg, a hefyd gan ystyried y dystiolaeth a'r wybodaeth sydd ar gael i ni, mae BIAP wedi datblygu 3 nod cydraddoldeb tymor hir, gydag amcan(ion) cydraddoldeb penodol dan bob un o'r nodau tymor hir. Sef:

Nod tymor hir:	Amcan Cydraddoldeb:
Ymgysylltu Sicrhau bod cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael eu diogelu'n gadarn a blaengar i bawb ym Mhowys.	Byddwn ni'n hybu agwedd bositif tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth ledled ein sefydliad. Anghenion lleol fydd yn darparu sail i'n prosesau ymgysylltu parhaus i ddatblygu a darparu gwasanaethau, â'r nod o wneud gwasanaethau gofal iechyd yn fwy hygyrch a lleihau anghydraddoldebau.
Nod tymor hir:	Amcan Cydraddoldeb:
Cyflenwi Gwasanaeth Anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig sy'n arwain ein ffordd o gynllunio a chyflenwi ein gwasanaethau gofal iechyd.	Byddwn ni'n gweithio gyda'n poblogaeth, ein staff a'n partneriaid i siapio ein ffordd o gynllunio a chyflenwi ein gwasanaethau.
Nod tymor hir:	Amcan Cydraddoldeb:
Gweithlu Mae BIAP yn enghraifft dda o gyflogwr a sefydliad blaenllaw, cynhwysol, amrywiol	Bydd gennym ni weithlu brwd sydd â pherthynas weithio bositif â'u rheolwyr a'u cydweithwyr mewn amgylchedd lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi i reoli eu llesiant eu hunain.

Rhoi Amcanion ein CCS ar Waith

Cynllun Gweithredu'r CCS

Mae ein hamcanion cydraddoldeb wedi'u gwreiddio'n llawn o fewn ein CTCI 2020-2023 a'n Cynllun Blynyddol ar gyfer 2020-2021, a bydd ein proses cynllunio corfforaethol a sicrhau perfformiad yn monitro ac yn adrodd ar sut y maen nhw'n cael eu cyflawni. Mae'n bosibl y caiff Cynllun Gweithredu'r CCS ei ddiwygio hefyd i ymgorffori amcanion yn y dyfodol o fewn unrhyw gynlluniau blynyddol dilynol.

Mae **Atodiad 1** yn dangos sut yr ydyn ni'n bwriadu croesgyfeirio Amcanion ein CCS ag amcanion ein CTCI lleol.

Hefyd, mae BIAP wedi nodi camau ychwanegol wedi'u seilio ar y nodau cydraddoldeb a'r amcanion cydraddoldeb tymor hir y manylir arnyn nhw yn y CCS hwn. Bydd y camau hyn yn sicrhau dull o weithredu a fydd yn targedu meysydd â blaenoriaeth o ran Cydraddoldeb o fewn BIAP dros y 4 blynedd nesaf.

Mae **Atodiad 2** yn cynnwys y camau ychwanegol.

Mae integreiddio Amcanion ein CTCI i mewn i'n CCS yn golygu bod yr holl staff yn gyfrifol am roi Amcanion y CCS ar waith ar draws yr amrywiol adrannau o fewn BIAP. Mae hefyd yn caniatáu i'r Pwyllgor Gweithredol a'r uwch reolwyr fonitro unrhyw newidiadau angenrheidiol i weithdrefnau gweithredu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â rhoi Amcanion y CCS ar waith ac yn caniatáu iddyn nhw gadw llygad ar y cynnydd a wneir.

Monitro, Adolygu a Chyhoeddi Gwybodaeth

Bydd y Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd, y Rheolwr Gwella Gwasanaeth ar gyfer Cydraddoldeb a'r Arweinwyr Gwasanaeth Cydraddoldeb yn goruchwyllo rhoi'r CCS ar waith. Darperir cyfleoedd i adrodd ar gynnydd i'r Bwrdd a'r Pwyllgorau fel mater o drefn ac i uwchgyfeirio unrhyw faterion a nodir yn ystod y broses fonitro.

Adroddir am y cynnydd a wneir yn erbyn amcanion y CTCI i'r Bwrdd a'r Pwyllgorau trwy ein hadroddiad perfformiad integredig.

Bydd y CCS yn cael ei adolygu pan ddaw i ben yn 2024.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am Gydraddoldeb yn BIAP ar ein gwefan. Mae'r dogfennau a ganlyn ar gael:

- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol BIAP (gorffennol a phresennol)
- Gwybodaeth am Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Cynllun Blynnyddol BIAP
- CTCI BIAP
- Strategaeth Iechyd a Gofal Powys
- Adroddiad Data ar Gydraddoldeb yn y Gweithlu a Chyflog rhwng y Rhywiau
- Safonau'r Gymraeg

Mae fformatau eraill ar gael ar gais. Anfonwch e-bost i Powys.geninfo@wales.nhs.uk neu ffoniwch 01874 711661.

Atodiad 1

Amcanion Cydraddoldeb 	Mesurau amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol cryf a blaengar i bawb ym Mhowys	Bydd anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn flaenllaw yn y broses o gynllunio a darparu ein gwasanaethau iechyd;	Bydd BIAP yn sefydliad a chyflogwr blaenllaw, cynhwysol, amrywiol sy'n dangos esiampl
Amcanion CTCI 			
Canolbwyntio ar Lesiant	Rhoi Cynllun Llesiant Powys ar waith fel partner i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhoi'r rhaglen gwella iechyd ac atal clefyd ar waith – i gynnwys dull gweithredu sy'n ystyried tegwch cymdeithasol wrth sgrinio Darparu Cymorth Cymunedol a Gofalwyr yn unol â Chynllun y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gynnwys gwaith gyda'r trydydd sector ar Gysylltwyr Cymunedol, Info Engine a Dewis, gwybodaeth hygyrch, cyngor ar lesiant a chyfeirio ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed.	Rhoi cynllun Gwella Iechyd Rhywiol ar waith	
Help a Chefnogaeth Gynnar	Rhoi'r rhaglen drawsnewid ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol ar waith i gynnwys meddygon teulu, gwasanaethau deintyddol, gofal llygaid a rheoli meddyginiaethau Cyflenwi Rhaglen Dechrau Da, Byw'n Dda a Heneiddio'n Dda i gynnwys Model Nyrsio Cymdogaeth, Dementia a Threfniadau Diogelu Wrth Amddifadu o Ryddid	Gwell gofal rhagweithiol i'r rheini sydd ag anghenion cymhleth i gynnwys Cynlluniau Gofal ar gyfer unigolion yr ystyrir eu bod yn risg uchel, gwerthuso ac estyn y Timau Adnoddau Cymunedol	
Mynd i'r Afael â'r Pedwar Mawr		Cyflenwi Rhaglen y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i gynnwys Model Gwasanaeth, cynllun gwella, therapïau seicolegol, iechyd mamau a babanod, integreiddio a CAMHS	

Galluogi Gofal Cydgysylltiedig	Cyflenwi Rhaglen Llesiant Gogledd Powys a Model Gofal Powys Cyflenwi Rhaglen Gofal Heb Ei Drefnu Powys Cyflenwi'r Model y Tu Allan i Orlau Rhoi'r Rhaglen Gwaith o Ansawdd ar waith, a'i siapio o gwmpas y Fframwaith Ansawdd Clinigol	Cyflenwi'r Rhaglen Gofal Cynlluniedig i gynnwys • Ffrydiau gwaith â blaenoriaeth ar gyfer endosgopi, gofal llygaid, orthopaedeg, y glust, y trwyn a'r gwddf • cynllunio gan ragweld gofal ar gyfer pobl â chyflyrau tymor hir, cyflawni'r camau gweithredu • cyflawni camau gweithredu'n ymwneud â diogelu, y Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol	
Datblygu Dyfodol y Gweithlu			Rhoi Fframwaith Strategol dyfodol y Gweithlu Powys ar waith i gynnwys: • Dylunio, Cynllunio a Denu'r Gweithlu – Brand Powys, ehangu mynediad i gyfleoedd gwaith i'r rheini sy'n gadael gofal a'r rheini ag anghenion dysgu uwch • Arwain y Gweithlu – Rhaglen Datblygu Diwylliannol, Model Arweinyddiaeth Dosturiol, Rhaglen Rheolwyr a Rhaglen Cyfarwyddwyr Cynorthwyol/ Uwch Reolwyr • Ymgysylltu a Llesiant – ymgysylltiad staff, mentrau llesiant a chefnogaeth • Addysg, Hyfforddiant a Datblygiad • Partneriaeth a Dinasyddiaeth – gwirfoddoli, profiad gwaith ar gyfer pobl ifanc, Academi Dysgu Gwledig
Hybu Amgylcheddau Arloesol		Cyflenwi Rhaglen Cyfalaf ac Ystadau i gynnwys strategaeth ystadau tymor hir, datblygiadau cyfalaf, cynaliadwyedd amgylcheddol, buddsoddi a chynnal a chadw eiddo ac asedau Cyflenwi Rhaglen Moderneiddio Cyfleusterau i gynnwys gwastraff ac ailgylchu, arlwy a thrafnidiaeth	

Rhoi Digidol yn Gyntaf		Datblygu a rhoi'r Fframwaith Strategol Digidol ar waith i gefnogi hunanreolaeth dinasyddion sydd â chyflyrau tymor hir i barhau yn weithgar	
Trawsnewid mewn Partneriaeth	Cyflenwi cynlluniau partneriaethau allweddol i gynnwys rheoli rhaglenni newid strategol, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, Cydbwyllgor Canolbarth Cymru a'r Fforymau Cynllunio Rhanbarthol Cyflawni cynllunio, perfformiad a chomisiynu parhaus i gynnwys cyflenwi'r Fframwaith Gwella Perfformiad, Cynllunio Strategol a Chomisiynu		

Atodiad 2 Cynllun Gweithredu

Yn ychwanegol at y camau a amlinellir yn ein CTCI a'n Cynlluniau Blynyddol troswaol, mae'r camau a ganlyn wedi'u nodi yn y cynllun gweithredu isod

Cynllun Gweithredu Amcanion Cydraddoldeb y CCS

Nod Tymor Hir 1 Mesurau amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol cryf a blaengar i bawb ym Mhowys	Amcan Cydraddoldeb: Byddwn ni'n hybu agwedd bositif tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth ledled ein sefydliad. Anghenion lleol fydd yn darparu sail i'n prosesau ymgysylltu parhaus i ddatblygu a darparu gwasanaethau, â'r nod o wneud gwasanaethau gofal iechyd yn fwy hygyrch a lleihau anghydraddoldebau.	
Cam	Person(au) sy'n Arwain	Cynnydd
Adolygu a chryfhau gweithdrefnau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer BIAP er mwyn sicrhau y bydd anghenion y rheini â nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau strategol ac wrth ddatblygu polisi	Ysgrifennydd y Bwrdd Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad	

Nod Tymor Hir 2 Bydd anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn flaenllaw yn y broses o gynllunio a darparu ein gwasanaethau iechyd;	Amcan Cydraddoldeb: Gweithio gyda'n poblogaeth, ein staff a'n partneriaid i siapio ein ffordd o gynllunio a chyflenwi ein gwasanaethau.	
Adolygu gweithdrefnau a chanllawiau comisiynu Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer rhaglenni Cyfalaf ac Ystadau er mwyn sicrhau bod anghenion unigolion ag anabledd yn cael eu hystyried yn gynnar yn y broses gynllunio	Pennaeth Ystadau ac Eiddo	
Datblygu Hyb Gwybodaeth Cydraddoldeb ar gyfer staff ar y Fewnrwyd i sicrhau bod staff bob amser yn gallu cael gafael ar wybodaeth ac adnoddau	Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd Rheolwr Gwella Gwasanaeth Cydraddoldeb	
Cynorthwyo yn yr adolygiad cenedlaethol o'r rhaglen Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth e-ddysgu orfodol sydd ar gael	Rheolwr Gwella Gwasanaeth Cydraddoldeb	

Nod Tymor Hir 3 Bydd BIAP yn sefydliad a chyflogwr blaenllaw, cynhwysol, amrywiol sy'n dangos esiamp	Amcan Cydraddoldeb: Bydd gennym ni weithlu brwd sydd â pherthynas weithio bositif â'u rheolwyr a'u cydweithwyr mewn amgylchedd lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi i reoli eu llesiant eu hunain.	
Cam	Person(au) sy'n Arwain	Cynnydd
Sicrhau bod BIAP yn rhagweithiol wrth gydymffurfio â gweithdrefnau Adolygu Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	
Dod o hyd i hyfforddiant perthnasol ychwanegol i wella gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb ac i helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth ddiwylliannol ymysg staff		

Atodiad 3

Dadansoddiad data o'r Arolwg Cynllun Cydraddoldeb Strategol y bu'r Grŵp Cydweithredol Rhanbarthol yn ei wneud

Yn dilyn dadansoddiad llawn o ganlyniadau'r arolwg o fewn ardal Powys, mae BIAP wedi rhoi sylw manwl i'r ymatebion i'r arolwg yn ymwneud â'r canlynol:

- Gofal a Chefnogaeth o fewn cyrraedd
- Iechyd
- Penderfyniadau sy'n dylanwadu

Cwestiwn yn yr Arolwg: Ydych chi o'r farn bod pobl yn y grwpiau a ganlyn yn cael profiadau gwell neu waeth yn gyffredinol o ran cael gofal a chefnogaeth o fewn cyrraedd?		
	Gwaeth	Gwaeth o lawer
Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)	25%	6%
Pobl Anabl	28%	25%
Pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol (LGBT)	16%	2%
Plant a Phobl Ifanc	19%	9%
Pobl Hŷn	26%	16%
Merched	8%	2%
Dynion	5%	0%
Trawsryweddol	16%	4%
Yn feichiog neu newydd roi genedigaeth	13%	3%
Sengl	8%	2%
Mewn perthynas	3%	0%
Siaradwyr Cymraeg	5%	0%
Y boblogaeth gyfan (gan gyfeirio at bawb â nodwedd warchodedig)	3%	1%

Cwestiwn yn yr Arolwg: Ydych chi o'r farn bod pobl yn y grwpiau a ganlyn yn cael profiadau iechyd gwell neu waeth yn gyffredinol?		
	Gwaeth	Gwaeth o lawer
Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)	32%	2%
Pobl Anabl	37%	20%
Pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol (LGBT)	12%	1%
Plant a Phobl Ifanc	18%	5%
Pobl Hŷn	28%	15%
Merched	10%	4%
Dynion	3%	2%
Trawsryweddol	24%	6%
Yn feichiog neu newydd roi genedigaeth	12%	3%
Sengl	2%	4%
Mewn perthynas	1%	3%
Siaradwyr Cymraeg	6%	5%
Y boblogaeth gyfan (gan gyfeirio at bawb â nodwedd warchodedig)	4%	2%

Cwestiwn yn yr Arolwg: Ydych chi o'r farn bod pobl yn y grwpiau a ganlyn yn cael profiadau gwell neu waeth yn gyffredinol o ddylanwadu ar benderfyniadau?		
	Gwaeth	Gwaeth o lawer
Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)	41%	14%
Pobl Anabl	40%	20%
Pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol (LGBT)	21%	6%
Plant a Phobl Ifanc	45%	12%
Pobl Hŷn	27%	6%

Merched	21%	6%
Dynion	2%	3%
Trawsryweddol	29%	5%
Yn feichiog neu newydd roi genedigaeth	19%	4%
Sengl	10%	3%
Mewn perthynas	5%	3%
Siaradwyr Cymraeg	8%	4%
Y boblogaeth gyfan (gan gyfeirio at bawb â nodwedd warchodedig)	11%	1%

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ganlyniadau'r Arolwg Cynllun Cydraddoldeb Strategol trwy gysylltu ag:

E-bost: Powys.geninfo@wales.nhs.uk **Ffôn:** 01874 711661

Atodiad 4

Gwybodaeth Bellach

I gael rhagor o ddata cyfrifiad ystadegol ar gyfer Powys, ewch i:

<https://cy.powys.gov.uk/article/6033/Gwybodaeth-Fanwl-am-y-Cyfrifiad>

I gael rhagor o wybodaeth am yr Asesiad o Anghenion Llesiant, ewch i:

<https://cy.powys.gov.uk/article/7602/Dadansoddiad-llawn-or-asesiad-lles>

I gael rhagor o wybodaeth am fanylion incwm aelwydydd, ewch i:

www.caci.co.uk/products/product/paycheck

I gael gwybodaeth am ystadegau LGBT, ewch i:

www.stonewallcymru.org.uk